

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS TORFAEN

Memorandwm Dealltwriaeth o Fedi 2019

Mae'r Memorandwm Dealltwriaeth (MD) yn cymryd lle'r fframwaith gwasanaethau cyhoeddus a sefydlwyd gan ragflaenydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Bwrdd Gwasanaethau Lleol Torfaen) yn 2013. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gwneud rhai agweddau o'r fframwaith yn ofyniad statudol ac felly mae'r MD yma'n drefniant diwygiedig rhwng partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen (BGC) ar lefel gweithredol a swyddogion.

Mae hefyd yn cyfeirio at gynnwys rhanddeiliaid eraill fel dinasyddion, arweinwyr busnes, ymchwil ac academia, a gwasanaethau cyhoeddus eraill (ar lefel rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol).

Cyfeirir at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel y *Ddeddf* trwy weddill y ddogfen hon.

Yr egwyddor datblygiad cynaliadwy, nodau llesiant cenedlaethol a'r pum dull o weithio:

Mae gofyn i'r BGC weithredu yn unol â'r egwyddor datblygiad cynaliadwy - a ddiffinnir yn y Ddeddf - sef sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'r egwyddor datblygiad cynaliadwy yn defnyddio'r pum dull o weithio sydd wedi eu hanelu at gyrraedd y nodau llesiant.

Bydd partneriaid yn y BGC ***yn sicrhau bod swyddogion / staff ar bob lefel yn eu sefydliadau'n*** defnyddio'r pum dull o weithio yn eu gwaith dydd i ddydd er mwyn eu sodro i mewn i feddwl, cynllunio a gweithredoedd pob dydd.

Mae'r pum dull a'u hystyron yn atodiad 1 ac mae'r ***daflen*** hon (a gyhoeddwyd gan CGGC ac wedi ei anelu at sefydliadau yn y trydydd sector) yn cynnig ***canllaw defnyddiol i'r gwasanaethau cyhoeddus / partneriaid y BGC i gyd.***

https://www.wcva.org.uk/media/6390594/5_ways_of_working_factsheets_-_welsh.pdf

Rhaid i'r BGC ***gyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol*** trwy eu cynlluniau lles yn unol â'r Ddeddf. Mae'r nodau cenedlaethol yn atodiad 1.

Y Bwrdd:

- Bydd yr Aelodaeth yn unol â'r Ddeddf a chylch gorchwyl y BGC.
- Os yw aelodau'n penderfynu danfon cynrychiolydd parhaol, dylai'r person yma gael ***grymoedd dirprwyedig i wneud penderfyniad*** ar ran ei sefydliad ***mewn perthynas ag agenda pob cyfarfod*** a bod yn gallu cyfrannu'n llawn i gyfarfodydd a gweithgareddau'r BGC yn llawn.
- Mae'r Bwrdd yn rhoi gwerth ar barhad mewn aelodaeth i adeiladu a chynnal perthnasau cadarnhaol. Er yn derbyn y bydd newid swyddogion mewn sefydliadau (oherwydd dyrchafiad, ymddeoliad neu newidiadau strwythurol eraill) yn arwain at fod aelodau'n newid o dro i dro, ***mae'r aelodau'n cytuno i gyfyngu ar ddirprwyo pellach ble bynnag y bo hynny'n bosibl.***
- O dan y Ddeddf, mae derbyn gwahoddiad yn golygu y bydd pob sefydliad yn ***chwarae rhan lawn yn y BGC*** gan gymryd ***cydberchnogaeth*** o asesiadau, cynlluniau ac adroddiadau, ***cydgyfrifoldeb*** am rannu cyfrifoldeb am gyflenwi ac unrhyw risgiau cysylltiedig.

- Mae'r Ddeddf yn dweud fod ***rhaid i'r aelodau statudol i gyd gael eu cynrychioli yng nghyfarfodydd y bwrdd*** a, phan fo ***penderfyniad*** yn cael ei gymryd gan y Bwrdd, bydd ***yn ddilys dim ond os yw'r partneriaid statudol yn cytuno'n unfrydol***.
- Bydd y Bwrdd ***yn agored i ystyried a rhoi prawf ar*** 'opsiynau a systemau' gwahanol sy'n cynorthwyo'r gwaith yn y ffordd orau; boed hynny'n ymchwil, rhaglenni peilot, newid ymddygiad, newid rhaglenni presennol, datblygu ffyrdd newydd o gyflenwi – yna defnyddio'r dysgu i oleuo gwaith yn y dyfodol.
- Mae'r Bwrdd ei hun ***yn agored i ddatblygiad parhaus*** trwy gyfeillion beirniadol a beirniadaeth adeiladol. Bydd y Bwrdd yn ***neilltuo amser ar gyfer dysgu ac yn trosglwyddo'r gwersi a ddysgwyd yn eu sefydliadau***.
Bydd Aelodau'r BGC ***yn nodd*** ffrydiau gwaith amrywiol.
- Bydd y Bwrdd ***yn rhoi mandad*** i swyddogion i weithio mewn ffyrdd gwahanol ac arloesol a ***bydd yn ceisio datgloi rhwystrau*** (boed hynny'n bobl, systemau, ffactorau eraill) sy'n atal datblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad.
- Bydd pob partner ***yn agored i gyfrannu*** fel mae'r MD yma'n nodi.

Cefnogaeth Swyddogion:

- Bydd Swyddogion Arweiniol yn cael eu henwebu ar gyfer ffrydiau gwaith gwahanol y BGC.
- Bydd Swyddogion Arweiniol yn ***cael eu cyfeirio gan noddwr y Bwrdd*** ar gynllunio, datblygu a chyflenwi.
- Bydd Swyddogion Arweiniol yn ***rhoi diweddariadau i noddwr y Bwrdd*** ynglŷn â chynnydd.
- Bydd Swyddogion Arweiniol yn ***cydlynu ac yn hwyluso'u ffrydiau gwaith*** – gan dynnu i mewn partneriaid eraill a rhanddeiliaid ehangach.

Gwerthoedd y BGC:

Cytunodd y Bwrdd ar bedwar o werthoedd yn eu cyfarfod ym Mai 2019 ac mae'n bwysig fod ***pob un o bartneriaid y BGC yn cefnogi dyhead y Bwrdd ar gyfer datblygiad sefydliadol a newid mewn ymddygiad fel bod swyddogion / staff ar bob lefel yn gweithredu gwerthoedd y BGC o:***

- ***Atebolrwydd*** - monitro perfformiad a rheoli risg, tra'n dal ei gilydd / unigolion i gyfrif
- ***Cydweithredu*** - dyma un o'r pum ffordd o weithio ac mae'n gofyn am ymddiriedaeth a chefnogaeth weithredol i swyddogion i weithio ar draws sefydliadau; cyfuno cryfderau a sgiliau a chyfrannu at nodau ac amcanion er mwyn cyflenwi amcanion y bartneriaeth
- ***Gonestrwydd*** – bod yn onest ac yn wir gyda'n hunain, gyda'n gilydd, gyda staff a gyda'r cyhoedd. Gallu dibynnu i gyflenwi nodau llesiant
- ***Uchelgais*** – penderfyniad i beidio 'gwneud yr hyn sydd wedi cael ei wneud o'r blaen' ond i anelu'n wirioneddol uchel a rhoi pob cefnogaeth posibl i lwyddo yn yr amcanion yma

Bydd aelodau'r Bwrdd a'r Grŵp Cefnogaeth Swyddogion ***yn hyrwyddo'r BGC yn eu sefydliadau eu hunain*** fel bod pob swyddog / aelod o staff yn gwybod pryd a sut y gallan nhw gyfrannu at raglen y BGC.

Bydd aelodau'r Bwrdd yn sicrhau nad yw **gweithgareddau'r bartneriaeth yn cael eu hatal** o fewn sefydliadau gan bobl nad ydynt yn ymwybodol o / yn gweld gwerth mewn gweithgareddau yn ymwneud â'r BGC.

G10 a gwaith rhanbarthol:

Mae Cadeiryddion / Arweinwyr a Phrif Weithredwyr y pedwar aelod statudol o'r pump BGC yng Ngwent, ynghyd â Phrif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu Gwent, yn ffurfio grŵp rhanbarthol y G10.

Cefnogir G10 gan swyddogion enwebedig o'u sefydliadau (GSWAG) sy'n gweithio i adnabod a chyflenwi amcanion llesiant cyffredin ar lefel ranbarthol a lleihau dyblygu. Mae'r ffordd yma o weithio hefyd yn tynnu i mewn arian allanol sydd ar gael dim ond ar lefel ranbarthol.

Bydd y Bwrdd **cadw G10 mewn cof** ynghyd a gwaith rhanbarthol GSWAG **ac yn cefnogi'r dull yma** i helpu cynnydd a chyflenwi nodau llesiant rhanbarthol lleol.

Craffu'r BGC:

Mae'r Ddeddf yn gofyn i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r BGC yr awdurdod lleol i graffu ar benderfyniadau a gwaith y BGC. Mae hyn yn cynnwys asesiadau o lesiant, cynlluniau lles, adroddiadau blynyddol ac agweddau gwahanol o gyflenwi.

Bydd Aelodau'r **Bwrdd yn mynychu'r pwyllgor craffu ble bynnag y bo hynny'n bosibl** gan mai penderfyniadau'r Bwrdd sy'n cael eu craffu – yn ogystal â'r gwaith sy'n cael ei wneud gan swyddogion ar ei ran.

Asesiadau Llesiant:

Mae'r Ddeddf yn gofyn am gyhoeddi asesiadau llesiant pob pum mlynedd.

- Bydd y gwaith yn cael ei arwain gan yr Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus (UCGC) a **bydd pob partner yn enwebu swyddogion** o'u sefydliadau - ac yn sicrhau bod y swyddogion yma'n ymgysylltu - **i gynorthwyo** gydag ymchwil, darparu data a dadansoddiad; cymryd rhan mewn gweithdai, ymarferiadau mapio, cyfarfodydd a thrafodaethau.
- **Bydd pob partner yn cyfrannu at ymgysylltiad cyhoeddus** mewn perthynas â'r asesiadau lles, rhyddhau swyddogion i gefnogi cyfarfodydd cyhoeddus, sesiynau galw i mewn a sesiynau ymadweithio wyneb yn wyneb ehangach.
- Bydd holl bartneriaid y BGC **yn gydberchnogion ar yr asesiadau.**
- Bydd holl bartneriaid y BGC **yn cefnogi craffu** o'r asesiadau.
- Bydd y Bwrdd **yn cefnogi cydweithio** gyda BGCau eraill yn y rhanbarth i gynhyrchu asesiadau lles ble mae hynny o fantais ar y cyd.

Y Cynllun Llesiant:

Bydd cynllun llesiant yn cael ei osod ar gylchdro pum mlynedd gan ddefnyddio'r asesiad diweddaraf o les ac yn unol â chanllawiau statudol y Ddeddf.

- Caiff y gwaith ei arwain gan yr UCGC a **bydd pob partner yn cyfrannu at ac yn cymryd rhan yn** natblygiad pob cynllun llesiant unigol, gan osod amcanion llesiant sy'n dod â gwerth ychwanegol i waith sefydliadau unigol.
- **Bydd pob partner yn sicrhau fod swyddogion o'u sefydliadau'n cymryd rhan** mewn gweithdai, cyfarfodydd a thrafodaethau i ddatblygu'r cynnwys.

- **Bydd pob partner yn cyfrannu at ymgysylltiad cyhoeddus mewn perthynas â'r** cynlluniau lles, rhyddhau swyddogion i gefnogi cyfarfodydd cyhoeddus, sesiynau galw i mewn a sesiynau ymadweithio wyneb yn wyneb ehangach.
- Bydd holl bartneriaid y BGC **yn cefnogi craffu'r** cynlluniau lles.
- Bydd holl bartneriaid y BGC **yn gyberchnogion ar y cynlluniau.**

Adroddiadau Blynyddol:

Rhaid cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol ar ddechrau Gorffennaf (heblaw mewn blwyddyn pan fo cynllun llesiant newydd yn cael ei gyhoeddi).

- Bydd yr UCGC yn arwain y gwaith yma a **bydd pob partner yn cymryd rhan yn ac yn cyfrannu** at y broses.
- Bydd holl bartneriaid y BGC **yn cefnogi craffu** o'r adroddiadau blynyddol.
- Bydd pob partner yn **gydberchnogion** yr adroddiadau blynyddol.

Cyflenwi:

Bydd holl bartneriaid y BGC yn cyfrannu at beri newid yn eu sefydliadau sy'n cefnogi cynllunio a chyflenwad i fodloni gofynion y Ddeddf, h.y. gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y saith nod a defnyddio'r pum ffordd o weithio wrth gyflenwi llesiant gwell i leoedd a phobl Torfaen.

Bydd hyn yn gofyn i **aelodau'r Bwrdd i adnabod a gwireddu adnoddau** - heb fod yn gyfyngedig i ond yn cynnwys:

- Rhannu asedau fel systemau swyddfa gefn, offer ac eiddo
- Darparu gofod swyddfa ar gyfer cydweithio
- Cynnal cyfarfodydd am ddim ar gyfer busnes y BGC (gan gynnwys y Bwrdd, grwpiau swyddogion a sesiynau cymryd rhan / ymgysylltu)
- Rhannu data a gwybodaeth
- Cyfrannu'n ariannol at weithgareddau'r BGC
- Hwyluso cyllidebu ar y cyd a dulliau modelau ataliol
- Arwain ceisiadau am arian a chynnal cynigion / prosiectau llwyddiannus ar ran y BGC
- Caffael ar y cyd ble bynnag y bo hynny'n bosibl er budd yr economi leol
- Comisiynu ar y cyd ble bynnag y bo hynny'n bosibl
- Cynnig arbenigedd i gwblhau'r UCGC gydag ymchwil; dadansoddiad; cynllunio ac arwain prosiectau; ymgysylltiad a chyfathrebu
- Annog a chaniatáu i staff i ymgysylltu â gwaith y BGC, gan ganiatáu amser iddyn nhw i weithio ar fusnes y bartneriaeth yn ogystal â gwaith corfforaethol
- Hwyluso gwasanaethau a arweinir gan drigolion trwy ddull cyson tuag at gymryd rhan, datgloi cyfalaf cymdeithasol a galluogi trawsnewidiad i mewn i fodolau mwy cyd-gynhyrchiol.

Monitro llwyddiant:

Bydd y Bwrdd **yn cefnogi swyddogion i edrych i mewn i atebion clyfar** a all helpu'r Bwrdd i fonitro cynnydd mewn newid ymddygiad mewn amser real. Gellir defnyddio hyn i gefnogi dysgu a gwella.

Dysgu ac ymchwil:

Bydd pob partner yn ***cefnogi dysgu ac ymchwil***, rhannu gwybodaeth ac arbenigedd o fewn sefydliadau sydd o fudd i agenda'r bartneriaeth. Bydd hyn yn cefnogi asesiadau lles, datblygu cynlluniau lles a chyflenwi'r amcanion llesiant lleol.

Bydd yr UCGC yn chwilio am ffyrdd i wneud hyn nad sy'n gostus i aelodau'r BGC ond sydd yn defnyddio arbenigedd, llwyfannau a systemau mewnol ac allanol gan gynnwys partneriaid eraill fel Data Cymru ac academia.

Cymryd Rhan ac Ymgysylltiad:

Bydd pob partner yn ***rhyddhau swyddogion ymgysylltiad*** i fynychu Grŵp Ymgysylltiad Strategol (GYS) y BGC ac yn ymwneud â gweithgareddau i gynnwys trigolion ac ymgysylltu â nhw mewn perthynas â busnes y BGC.

- Bydd y GYS ***yn cael ei gyfeirio gan y BGC a grwpiau swyddogion*** i gysylltu â thrigolion o gylch materion.
- Bydd pob partner yn ***defnyddio logo'r BGC*** wrth gynhyrchu gwybodaeth yn ymwneud â busnes y BGC.
- Bydd pob partner yn ***defnyddio baneri sbonc y BGC*** wrth gynnal unrhyw gyfarfod neu ddiwyddiad sy'n cynnwys y cyhoedd ac sy'n ymwneud â busnes y BGC.
- Bydd holl bartneriaid y BGC ***yn cefnogi'r cyfranogiad plant a phobl ifanc ac yn cysylltu â*** Swyddog Cyfranogiad yr awdurdod lleol.
- Bydd pob partner yn ***gweithio tuag at y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol*** fel cytunwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym Mai 2019.

Cyfathrebu:

- Bydd pob partner yn ***cefnogi cyfathrebu*** mewn perthynas â'r BGC a'i fusnes.
- Bydd pob partner yn ***defnyddio logo'r BGC*** wrth gynhyrchu gwybodaeth yn ymwneud â busnes y BGC.

Bydd Swyddogion yn dod â chynnig ynglŷn â sut fydd y BGC yn ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol (gan gofio'r her a nodwyd yn adroddiad blynyddol 2019) a bydd yr adran yma'n cael ei diweddarw wedyn.

Gweinyddiaeth y Bartneriaeth:

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod yr awdurdod lleol yn gweinyddu'r ***Bwrdd*** ac ar gyfer Torfaen yr Uned Cefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus (UCGC) sy'n gwneud hyn.

- Bydd yr ***UCGC yn gweinyddu ac yn hwyluso*** holl gyfarfodydd y Bwrdd a'r Grŵp Cefnogaeth Swyddogion.
- Bydd Swyddogion Arweiniol yn ***darparu'r holl gefnogaeth weinyddol ar gyfer eu ffrydiau gwaith*** mewn perthynas ag amcan penodol neu ddarn o waith datblygu, ***o oddi mewn i'w tîm / sefydliad eu hunain***.
- Bydd yr ***UCGC yn arwain ar*** yr asesiadau lles, datblygiad y cynlluniau lles, adroddiadau blynyddol a'r holl adroddiadau i bwyllgor craffu'r BGC.
- Bydd yr ***UCGC yn gyfrifol am*** wefan y BGC a'i chynnwys.

Datblygiad y gweithlu a chynllunio:


- Bydd pob partner yn **sicrhau bod eu gweithlu yn ymwybodol** o'r BGC, y cynlluniau lles a bod gan bawb ran i chwarae i gael llesiant gwell i leoedd a phobl Torfaen.
- Bydd y Bwrdd **yn agored i gyfleoedd i rannu swyddi, seondiadau ar draws sectorau, prentisiaethau yn y sector cyhoeddus**, rhannu gwybodaeth a sgiliau er mwyn bodloni anghenion presennol ac yn y dyfodol i gyflenwi agenda'r BGC.





Atodiad 1.

Y saith nod llesiant cenedlaethol:

Cymru fwy llewyrchus	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
Cymru gydnerth	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Cymru iachach	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
Cymru o gymunedau cydlynus.	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Y pum ffordd o weithio:

<p>Yr hirdymor</p> 	<p>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd, yn enwedig pan fo pethau sy'n cael eu gwneud i ddiwallu anghenion tymor byr yn gallu cael effeithiau tymor hir niweidiol.</p> <p>h.y. Osgoi gweithredu ar gyfer y tymor byr ac ystyried sut fydd penderfyniadau'n effeithio ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal â'r presennol.</p>
--	--

<p>Atal</p> 	<p>Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.</p> <p>Sut all ddefnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi, neu waethygu, gyfrannu at ddiwallu amcanion llesiant y corff neu amcanion corff arall.</p> <p>h.y. Sut all weithredu'n gynnar – a chydag eraill – i daclo gwraidd problemau cyn iddyn nhw ddatblygu neu waethygu, ddod â deilliannau gwell i unigolion, cyrff cyhoeddus a chymdeithas yn gyfan.</p>
<p>Integreiddio</p> 	<p>Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'i amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. Yn arbennig pan fo camau a gymerir gan y corff yn cyfrannu at ddiwallu un amcan yn gallu bod yn niweidiol at ddiwallu amcan arall.</p> <p>h.y. Sicrhau fod ystod llawn canlyniadau cam yn cael ei ystyried fel bod gweithgaredd mewn un maes gwaith yn gallu cael ei lunio i gyd-fynd â, yn hytrach na thanseilio, gweithgareddau mewn meysydd eraill.</p>
<p>Cydweithredu</p> 	<p>Ystyried sut y gall cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu â gwahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i fodloni ei amcanion.</p> <p>h.y. Gweithio gydag eraill, oddi mewn a thu allan i'ch tîm neu sefydliad, fel y bod modd bodloni cymaint o amcanion ag sy'n bosibl gyda'r adnoddau ac arbenigedd sydd ar gael.</p>
<p>Cynnwys</p> 	<p>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth</p> <p>h.y. Peidio â cheisio datrys problemau ar eich pen eich hun ond deall buddion cynnwys cynifer o bobl â phosibl i helpu ffurfio'r penderfyniadau a'r gwasanaethau a fydd yn effeithio ar eu bywydau.</p>